Gwybodaeth a Gweithdai

Cyflwyniad i Dendro

31ain o Ionawr 2012, 9.30yb – 4yh
Lleoliad: i'w gadarnhau
Tiwtoriaid: Liz Cook a Nicola Llewelyn

Anelir y gweithdy cyflwyniadol undydd hwn at fudiadau sydd heb unrhyw brofiad o dendro.

Erbyn diwedd y sesiwn, fe fydd y cyfranogwyr yn:

- Deall y gwahaniaeth rhwng grantiau a chontractau
- Meddu ar well dealltwriaeth o faes tendro
- Deall y camau sy'n gysylltiedig â'r broses dendro
- Medru ymchwilio i'r posibilrwydd o weithio ar y cyd

Gweithdy di-dâl a gefnogir gan Cymunedau Mentrus a'r CGGC

Cadeirio i Lwyddo

15fed o Chwefror 2012, 10yb – 1yh
Lleoliad: CGGSB, Hwlffordd
Tiwtor: Liz Cook

Erbyn diwedd y sesiwn, fe fydd y cyfranogwyr yn:

- Deall rôl y Cadeirydd ac yn ystyried yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen
- Deall y gwaith paratoi a chynllunio sydd angen i lwyddo
- Medru nodi'r adnoddau sydd eu hangen i weithio tuag at gyfarfod llwyddiannus

Gweithdy di-dâl a gefnogir gan Cymunedau Mentrus

Cadw Cyfrifon Sylfaenol a Rôl y Trysorydd

29ain o Chwefror 2012, 10yb – 1yh
Lleoliad: CGGSB, Hwlffordd
Tiwtoriaid: Angela Dewitt a Liz Cook

Erbyn diwedd y sesiwn, fe fydd y cyfranogwyr yn:

- Deall termau a chysyniadau cyfrifyddu sylfaenol
- Meddu ar drosolwg o'r gofynion cyfreithiol mewn perthynas â maint a strwythur y mudiad
- Gwybod sut i gydosod a chynnal system cadw cyfrifon syml
- Gwybod sut i gydosod system arian mân
- Medru paratoi adroddiad ariannol sylfaenol ar gyfer y Pwyllgor Rheoli
- Deall rôl a chyfrifoldebau sydd ynghlwm â rôl Trysorydd

Gweithdy di-dâl a gefnogir gan Cymunedau Mentrus a Cymunedau sy'n Cydweithio

Cyflwyniad i recriwtio a chadw gwirfoddolwyr

Dyddiadau: 7 o Fawrth 2012, 10.00yb-4.00yh
5 Gorffennaf 2012, 10.00yb-4.00yh
Lleoliad: PAVS, Hwlffordd
Tiwtor: Caroline Graham

Bydd y gweithdy undydd yn edrych ar ddatblygu arfer da mewn mentrau gwirfoddol newydd a chyfredol. Bydd yn darparu gwybodaeth a chyngor ar bolisïau a gweithdrefnau sy'n berthnasol i redeg rhaglen wirfoddol broffesiynol sy'n cynnwys polisïau trefniadaeth sy'n berthnasol i wirfoddoli, marchnata, recriwtio, sefydlu, hyfforddi, cefnogi a goruchwylio.
Cyfeiria pob adran at raddau gwahanol o reoli gwirfoddol gan dynnu sylw at faterion amrywiol sy'n ymwneud â recriwtio gwirfoddolwyr.

Bydd y sesiwn hwn yn ddefnyddiol ar gyfer: rheolwyr gwirfoddol newydd neu reolwyr gwirfoddol presennol a fyddai'n hoffi gwella eu sgiliau a'u gwybodaeth. Bydd y sesiwn hwn hefyd yn ddefnyddiol i ymddiriedolwyr mudiadau sy'n rheoli gwirfoddolwyr.

Bydd pob mudiad fydd yn mynychu'n cael copi o "Becyn Sut i …Ddatblygu Menter Wirfoddol"

Ariannu eich Dyfodol - cyflwyniad i baratoi strategaeth codi arian cynaliadwy

13eg o Fawrth 2012, 10yb – 1yh
Lleoliad: CGGSB, Hwlffordd
Tiwtor: Lorna Livock

Defnyddiol i unrhyw grŵp sy'n dymuno cael mewnwelediad pellach i godi arian cynlluniedig.

Erbyn diwedd y sesiwn, fe fydd y cyfranogwyr yn:

- Deall beth yw strategaeth codi arian a pham bod ei angen
- Medru ymchwilio ac ehangu eu hopsiynau codi arian
- Medru paratoi strategaeth codi arian cynaliadwy realistig

Gweithdy di-dâl a gefnogir gan Cymunedau sy'n Cydweithio

Sut i fod yn Ysgrifennydd Effeithiol

28ain o Fawrth 2012, 10yb – 1yh
Lleoliad: CGGSB, Hwlffordd
Tiwtor: Anne Isaac

Mae'r gweithdy hwn yn addas i ysgrifenyddion newydd mudiadau gwirfoddol, yn ogystal ag ysgrifenyddion llawer mwy profiadol sy'n dymuno diweddaru neu ffurfioli eu gwybodaeth.

Erbyn diwedd y sesiwn, fe fydd y cyfranogwyr yn:

- Deall cyfrifoldebau allweddol yr Ysgrifennydd
- Gwybod pwysigrwydd y ddogfen lywodraethol i swydd yr Ysgrifennydd
- Deall safle'r ysgrifennydd mewn perthynas â swyddogion anrhydeddus a staff eraill
- Medru cyflawni amryw o ddyletswyddau allweddol, yn cynnwys paratoi'r agenda a'r cofnodion.

Gweithdy di-dâl a gefnogir gan Cymunedau sy'n Cydweithio

Rolau a Chyfrifoldebau_– Beth sydd angen i bob aelod pwyllgor i wybod!
16 Mai 2011, 10yb – 1yh
Lleoliad: CGGSB, Hwlffordd
Tiwtor: I'w gadarnhau

Gweithdy yw hwn ar gyfer aelodau pwyllgor newydd ac aelodau mwy profiadol sydd eisiau diweddaru eu gwybodaeth.

Erbyn diwedd y sesiwn, fe fydd y cyfranogwyr yn:

- Meddu ar ddealltwriaeth fwy clir o rolau a chyfrifoldebau aelodau pwyllgor
- Deall pwysigrwydd y ddogfen lywodraethol
- Deall y cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â strwythur cyfreithiol
- Cyfarwydd â gofynion cyrff rheoleiddio allanol
- Adnabod rhwymedigaethau posib a sut i warchod yn eu herbyn

Gellir teilwrio'r gweithdy hwn ar gyfer eich mudiad a'i ddarparu ar amser ac mewn lle sy'n addas i chi.

Gweithdy di-dâl a gefnogir gan Cymunedau sy'n Cydweithio

Gweithdy Cymorth Rhodd

Mai 2012 (dyddiad i'w gadarnhau), 10yb - 12 hanner dydd
Lleoliad: Hwlffordd
Tiwtor: Eileen Kinsman – Swyddog Cymru'n Rhoi CGGC

Anelir at elusennau a chlybiau chwaraeon nad sydd wedi cofrestru i hawlio Cymorth Rhodd, yn ogystal â'r rhai hynny sydd eisoes wedi cofrestru, ond sydd eisiau sicrhau eu bod yn hawlio popeth maent yn gymwys i'w gael

Bydd y gweithdy hwn yn ystyried y broses o gofrestru ar gyfer, a hawlio, Cymorth Rhodd mewn pum cam syml. Bydd y sesiwn yn cynnwys sut i:

- Gofrestru gyda HMRC i hawlio Cymorth Rhodd
- Cymell rhoddwyr i gwblhau datganiadau Cymorth Rhodd
- Cadw cofnodion priodol
- Hawlio Cymorth Rhodd
- Hyrwyddo Cymorth Rhodd
- Sicrhau bod eich mudiad yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac arfer gorau
- Gwybod ble i fynd i gael gwybodaeth, cymorth a chyngor pellach

Gweithdy di-dâl a gefnogir gan Cymunedau sy'n Cydweithio

Elusennau a TAW – Beth yw'r goblygiadau?

14 Mehefin 2012, 10yb – 12.30yh
Lleoliad: CGGSB, Hwlffordd
Tiwtoriaid: Eleri Roberts a Denise Davies – Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC)

Sesiwn am ddim sy'n ddelfrydol i fudiadau sydd eisiau ymgyfarwyddo eu hunain â gofynion cofrestru ar gyfer TAW a'r rheini sydd eisiau gwybod manteision ac anfanteision cofrestru.

Erbyn diwedd y sesiwn, fe fydd y cyfranogwyr yn:

- Deall TAW a'i oblygiadau i fudiadau gwirfoddol
- Deall manteision ac anfanteision cofrestru ar gyfer TAW
- Gwybod sut i gofrestru gyda'r HMRC
- Deall cyflenwadau cyfradd gostyngol a chyflenwadau na chodir TAW
- Deall gofynion ffurflenni TAW

Sut i gymryd cofnodion effeithiol

26 Mehefin 2011, 10yb – 1yh
Lleoliad: CGGSB, Hwlffordd
Tiwtor: I'w gadarnhau

Defnyddiol ar gyfer pobl sy'n newydd i gymryd cofnodion neu'r rhai hynny sydd eisiau diweddaru eu sgiliau a'u gwybodaeth.

Erbyn diwedd y sesiwn, fe fydd y cyfranogwyr yn:

- Deall diben cyfreithiol ac ymarferol cofnodion
- Medru gwerthuso steil a chynnwys cofnodion
- Deall rôl y sawl sy'n cymryd cofnodion
- Ymchwilio i'r cynghorion gorau ar gyfer cymryd cofnodion effeithiol

Gweithdy di-dâl a gefnogir gan Cymunedau sy'n Cydweithio

Strategaeth Ariannu – Gweithdy Goroesi a Gwrthsefyll

Rhan 1 – 27 Mehefin 2012, 9.30yb – 1yh
Rhan 2 – 4 Gorffennaf 2012, 9.30yb – 1yh
Lleoliad: CGGSB, Hwlffordd.
Tiwtoriaid: Kevin Doolin a Wendy Marmara

Erbyn diwedd y sesiwn, fe fydd y cyfranogwyr yn:

- Deall manteision ac anfanteision ffynonellau gwahanol o gyllid
- Medru defnyddio adnoddau busnes ar gyfer datblygu strategol
- Datblygu cynllun gweithredu pwrpasol er mwyn i'r mudiad i ddechrau symud ymlaen a chael dyfodol ariannol mwy diogel

Gweithdy di-dâl a gefnogir gan Cymunedau sy'n Cydweithio

Hyfforddiant Haen 1 Cymeradwy'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant (Diogelu Plant)

Lleoliad: CGGSB, Hwlffordd
Tiwtor: Lee Hind
Gellir darparu'r gweithdy hwn ar gais, cysylltwch â CGGSB i gofrestru eich diddordeb

Bydd y sesiwn dwy awr hon yn ddefnyddiol i'r rhai hynny sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn uniongyrchol, neu'r rhai hynny sy'n gweithio i fudiad sy'n cyfrif plant a/neu bobl ifanc fel cleientiaid.

Erbyn diwedd y sesiwn, fe fydd y cyfranogwyr yn:

- Ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu
- Deall beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon am les plentyn neu berson ifanc
- Gwybod wrth bwy mae reportio eu pryderon
- Deall beth fydd yn digwydd wedi i'r pryderon hynny i gael eu reportio

Mae'r sesiwn hon **am ddim** i'r holl grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn Sir Benfro.

I archebu lle ar unrhyw un o'r gweithdai yma, neu os am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Thîm Datblygu CGGSB ar 01437 769 422 neu development@pavs.org.uk